# Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

cpll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Cais am Amcangyfrif – Ffurflen i Aelodau Gohiriedig

**Gwneud cais am amcangyfrif ymddeol ar gyfer Aelod Gohiriedig**

## Amdanoch Chi – Eich Manylion Personol

| | |
|---|---|
| **Rhif yswiriant gwladol** | |
| **Teitl** | |
| **Enw Llawn** | |
| **Dyddiad Geni** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| | **Cod post** |

## Statws Partneriaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sengl** | ☐ | **Priod** | ☐ |
| **Partneriaeth Sifil** | ☐ | **Ysgaru/Diddymu Partneriaeth Sifil** | ☐ |
| **Partner Sy'n Cyd-fyw** | ☐ | **Gweddw/Partner Sifil sy'n Goroesi** | ☐ |

## Manylion Amcangyfrif

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | |
| **Dyddiad Gadael** | |

Rhaid i'r dyddiad amcangyfrif a ddewiswyd fod yn llai na 2 flynedd o'r dyddiad yr ydych yn llenwi'r ffurflen hon a rhaid i chi fod yn 55 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Amcangyfrif** | |

**Byddwn yn anfon eich amcangyfrif ymddeol trwy Fy Mhensiwn Ar-lein.**

## Llofnodi eich Ffurflen Gais am Amcangyfrif

- *Gofynnaf i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) roi amcangyfrif pensiwn i mi o'm cyfrif pensiwn gohiriedig os yw'n cael ei dalu ar y dyddiad a ddewiswyd gennyf.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | **Dyddiad** | |

## GDPR – Hysbysiad Preifatrwydd

*Mae Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) yn rhan o Gyngor Torfaen, sy'n Rheolwr Data dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn golygu ein bod yn storio, cadw a rheoli eich data personol yn unol â gofynion statudol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dyletswydd statudol, mae'n ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth gyda chyrff penodol, ond dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y bydd yn gwneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data, gyda phwy rydyn ni'n ei rannu a pha hawliau sydd gennych i ofyn am wybodaeth gan y Gronfa, ewch i* [www.cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/hysbysiad-preifatrwydd/](www.cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/hysbysiad-preifatrwydd/)

Dychwelwch eich **Cais am Amcangyfrif i Aelodau Gohiriedig** i:

Sganiwch neu dynnu llun o'r ffurflen hon a'i
**Lan lwytho** trwy eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein; neu ei anfon mewn
**e-bost** i pensions@torfaen.gov.uk; neu
**Postio'r ffurflen** i: Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB

## Gwybodaeth am eich cais

- Rydych chi'n aelod gohiriedig o'r CPLlL os nad ydych bellach yn talu cyfraniadau i'ch cyfrif pensiwn gyda ni.
- Ein nod yw rhoi eich amcangyfrif i chi o fewn 21 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich ffurflen gais am amcangyfrif. Gall hyn fod yn hirach yn ystod cyfnodau pan fydd y Gronfa Bensiwn yn brysur.

- Byddwn yn anfon eich amcangyfrif i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein yn unig. Mae'n hawdd cofrestru ar ein gwefan www.cronfabensiwngwent.co.uk Cliciwch ar y ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein (ar frig y dudalen).

1. Bydd angen eich Rhif Yswiriant Gwladol a'ch Cod Post arnoch.
2. Dewiswch Enw Defnyddiwr a Chyfrinair.
3. Bydd angen ateb rhai cwestiynau diogelwch. Pan fyddwch wedi cofrestru byddwn yn postio rhif PIN i'ch cyfeiriad cartref. Pan fyddwch chi'n cael eich rhif PIN (mewn tua 5 diwrnod) gallwch fewngofnodi i weld eich cyfrif pensiwn eich hun.

- Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, rhowch wybod i ni a byddwn yn anfon eich amcangyfrif drwy'r post i'ch cyfeiriad cartref.
- Mae gennych hawl i un cais am amcangyfrif am ddim o fewn cyfnod o 12 mis neu ddau amcangyfrif am ddim os ydynt ar gyfer gwahanol flynyddoedd ariannol hy, Ebrill 2022 ac Ebrill 2023. Os oes angen amcangyfrif pellach arnoch o fewn 12 mis i'ch cais blaenorol, gall hyn olygu tâl yn ôl disgresiwn Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

- Os ydych chi'n aelod gweithredol, ni ddylech lenwi'r ffurflen hon, Dylech lenwi Ffurflen Cais am Amcangyfrif sydd ar gael yn yr adran Ffurflenni a Chyhoeddiadau ar ein gwefan.

- **Ni ddylech lenwi'r ffurflen hon os:**
    - Ydych chi am hawlio'ch buddion pensiwn gohiriedig. Llenwch ffurflen Cais i Halwio'ch Pensiwn Gohiriedig yn lle.
- Os ydych am i'ch cyflogwr blaenorol dalu'ch buddion gohiriedig oherwydd salwch, dylech wneud cais i adran AD eich cyflogwr blaenorol fel y gallant wneud penderfyniad ynghylch rhyddhau eich pensiwn yn gynnar oherwydd salwch.
- Os oes angen amcangyfrif arnoch am fwy na 2 flynedd yn y dyfodol neu os nad ydych wedi cyrraedd eich pen-blwydd yn 55 oed eto, ni fyddwn yn gallu rhoi amcangyfrif o'ch pensiwn CPLlL. Dylech fewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein a defnyddio'r gyfrifiannell pensiwn ar-lein.

Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Ffurflen Aelodaeth Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus

**Dweud wrthym am aelodaeth flaenorol o unrhyw Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus**

Er 1 Hydref 2023 newidiodd rheolau CPLlL i gael gwared ar y gwahaniaethu a ganfuwyd yn nyfarniad McCloud. Mae'r ffurflen hon i ddweud wrthym am aelodaeth flaenorol o unrhyw Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus a oedd gennych cyn 1 Ebrill 2012 ac yn ystod Cyfnod Rhwymedi McCloud. Bydd hyn yn caniatáu inni benderfynu a ydych chi'n gymwys ar gyfer yr amddiffyniad sylfaenol. Gallwch ganfod mwy am Rwymedi McCloud ar gyfer aelodau CPLlL ar y wefan genedlaethol i aelodau: www.lgpsmember.org/mccloud

**Dylech ateb na i'r cwestiwn yn adran 1 ar y ffurflen hon os:**

- Ydych wedi bod yn aelod o'r CPLlL gyda'r Gronfa Bensiwn hon yn unig , heb unrhyw aelodaeth Gwasanaeth Cyhoeddus arall; neu
- Rydych eisoes wedi trosglwyddo'ch Aelodaeth Wasanaeth Cyhoeddus blaenorol i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

**Rhaid dweud wrthym am bob cyfnod y buoch yn aelod o'r Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus isod cyn ymuno â Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen):**

1. Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, Cynllun Pensiwn Barnwrol, Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Cynllun Pensiwn Athrawon, Cynllun Pensiwn y GIG, Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, Cynllun Pensiwn yr Heddlu, Cynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog

**Nid oes angen i chi ddweud wrthym am:**

- Unrhyw bensiynau goroeswyr nad ydynt yn CPLlL rydych chi'n eu derbyn; neu
- Dyfarniadau Credyd Pensiwn fel rhan o ysgariad/ diddymu Partneriaeth Sifil; neu
- Unrhyw aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus ar ôl i chi roi'r gorau i dalu i'r CPLlL gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

## Amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Rhif Yswiriant Gwladol** | |
| **Teitl** | |
| **Enw Llawn** | |
| **Dyddiad Geni** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| | **Cod Post** |

## Adran 1

### A oeddech yn aelod o Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus cyn ymuno â Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)?

**Oeddwn** ☐ **Nac oeddwn** ☐ **Os nad oeddech, ewch i adran 3 i lofnodi'r ffurflen**

## Adran 2 - Aelodaeth flaenorol o Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus

| Enw'r Cynllun | Rhif Aelod neu Gyfeirnod | Dyddiadau'r Aelodaeth | | Statws Aelodaeth (Gweithredol, Gohiriedig, Ad-dalu, Pensiynwr) |
|---|---|---|---|---|
| | | O | I | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Adran 3 – Llofnodi Ffurflen Aelodaeth Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus

- *Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth rydw i wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir.*
- *Rwy'n caniatáu i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) gysylltu â'r cynlluniau pensiwn ar y ffurflen hon i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am fy aelodaeth flaenorol o gynllun pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus.*
- *Rwy'n deall y bydd Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu a fyddai'r amddiffyniad sylfaenol yn berthnasol i unrhyw un o'm muddion pensiwn.*

**Eich Llofnod** ____________________ **Dyddiad** __________

**Dychwelwch eich Ffurflen Aelodaeth Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus** i:

Sganiwch neu dynnu llun o'r ffurflen hon a'i
**Lan lwytho** trwy eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein; neu ei anfon mewn
**e-bost** i pensions@torfaen.gov.uk; neu
**Postio'r ffurflen** i: Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB

### GDPR - Hysbysiad Preifatrwydd

*Mae Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) yn rhan o Gyngor Torfaen, sy'n Rheolwr Data dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn golygu ein bod yn storio, cadw a rheoli eich data personol yn unol â gofynion statudol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dyletswydd statudol, mae'n ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth gyda chyrff penodol, ond dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y bydd yn gwneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data, gyda phwy rydyn ni'n ei rannu a pha hawliau sydd gennych i ofyn am wybodaeth gan y Gronfa, ewch i www.cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/hysbysiad-preifatrwydd/*